

# *GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU*

## **DATGANIAD AR GYFRIFON 2003-2004**

### **CYNNWYS**

	<b><u>RHIF TUD.</u></b>
Rhagair Esboniadol gan y Trysorydd	1-5
Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon	6
Datganiad ar y System Rheolaeth Ariannol Fewnol	7
Datganiad Polisiâu Cyfrifyddu	9-12
Cyfrif Refeniw Cyfunol	13
Nodiadau'r Cyfrif Refeniw Cyfunol	14-18
Taflen Fantolen Gyfunol	19
Nodiadau'r Daflen Fantolen Gyfunol	20-26
Datganiad cyfanswm y symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau	27
Nodiadau'r Datganiad cyfanswm y symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau	27-28
Datganiad Llif Arian	29
Nodiadau'r Llif Arian	30
Adroddiad Archwiliwr Gwasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru	31-32

## **RHAGAIR ESBONIADOL**

1. Mae Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod yn gyhoeddiad a orchmynnir gan y gyfraith; a'i bwrpas yn bennaf yw darparu gwybodaeth glir ynghylch sefyllfa a pherfformiad ariannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-2004.

2(a). Mae'r datganiadau a'u pwrpas fel a ganlyn:-

(i) **Datganiad Polisiâu Cyfrifyddu**

Mae hwn yn gosod yr egwyddorion a'r polisiâu y sylfeini'r cyfrifon y Gwasanaeth Tân arnynt.

(ii) **Cyfrif Refeniw Cyfunol**

Mae hwn yn crynhoi gwariant y Gwasanaeth Tân ac yn arddangos sut yr ariannwyd y gwariant.

(iii) **Taflen Fantolen Gyfunol**

Mae'r Taflen Fantolen Gyfunol yn disgrifio sefyllfa ariannol y Gwasanaeth Tân.

(iv) **Datganiad yr holl Symudiadau Wrth Gefn**

Daw'r datganiad hwn â holl enillion a cholledion y Gwasanaeth Tân a gydnabyddir ynghyd, ac amlinellu'r rhai a gydnabyddir a'r rhai na chawsant eu cydnabod yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

(v) **Datganiad Llif Arian**

Mae'r datganiad cyfunol hwn yn crynhoi'r llif arian mewnol ac allanol a gyfyd o'r trafodion â thrydydd parti i bwrpas refeniw a chyfalaf.

(vi) **Datganiad cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon**

Mae'r rhan hon yn dangos cyfrifoldebau Trysorydd yr Awdurdod Tân ynglŷn â'r Datganiad Cyfrifon

2(b). Cefnogir y Cyfrif Cyllid, y Fantolen a'r Datganiadau Llif Arian gan nodiadau sydd yn darparu gwybodaeth ychwanegol. Mae'r Gyfriflen yn cwrdd â gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu yr Awdurdod Lleol ym Mhrydain Fawr a gyhoeddwyd yn 2003 a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau (2003) gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) a'r Rheolau Archwilio a Chyfrifyddu 1996.

### **3. CRYNODEB O'R FLWYDDYN ARIANNOL 2003-2004**

#### **(i) Gwariant Refeniw 2003-2004**

Cymeradwywyd y gyllideb am y flwyddyn gan Aelodau'r Awdurdod Tân ar £25,304,230. Mae'r Cyfrif Refeniw Cyfunol yn dangos bod y gwariant am y flwyddyn o fewn y swm yma. Roedd adroddiadau i'r Aelodau yn Rhagfyr 2003 a Mawrth 2004 mai'r alldro ar gyfer 2003-2004 fyddai gorwariant o rhwng £216,000 a £231,000, i'w ariannu o danwariant y blynyddoedd a fu. Y gwir wariant ar gyfer 2003-2004 oedd £25,298,686, sef tanwariant o £5,544. Trafodir y tanwariant yn fanylach isod.

Effeithiau'r Dyfarniad Cyflog ar flwyddyn ariannol 2003-2004 oedd gorwariant ar gyflogau diffoddwyr tân llawn amser a rhan amser o £341,000. Fodd bynnag, mae'r gorwariant ar gyflogau wedi ceir wrthbwysu gan arbedion mewn lleoedd eraill ynn y gyllideb felly mae'r Ddarpariaeth yn y Dyfarniad Cyflog wedi aros yr un fath.

Roedd y gyllideb ar gyfer staff di-lifrai wedi ei danwario o £95,000 yn bennaf oherwydd na chafodd rhai swyddi newydd eu llenwi ar ddechrau'r flwyddyn a neb wedi dod i gymryd lle staff yn syth wedi i swydd ddod yn wag.

Dan y gwariant Pensiynau, y gyllideb ar gyfer Cymudo oedd £933,100 ac i ymorol am y gwariant uwch na'r arfer gwnaethpwyd darpariaeth yn y gyllideb i drosglwyddo £100,000 o'r Ddarpariaeth Bensiynau. Y gwir wariant ar Gymudo oedd £636,946 felly ystyrir mai doeth fyddai peidio â throsglwyddo'r arian o'r Ddarpariaeth Bensiynau. Roedd y costau pensiynau ar y cyfan yn orwariant o £17,030 oherwydd y cynnydd yn trosglwyddiadau pensiwn gwerthoedd allan.

Dan y Cyflenwadau a Gwasanaethau mae'r costau am Gyfrifiadurol yn dangos tanwariant o £127,000. Roedd darpariaeth yn y gyllideb o £100,000 am system reoli adnoddau dynol newydd wedi cael ei gynnwys o fewn y Costau Cyfrifiaduron ar gyfer 2003-2004. Roedd oedi wedi bod wrth brynu'r system, yn bennaf oherwydd y newidiadau cenedlaethol fel rhan o foderneiddio'r Gwasanaeth Tân. I alluogi'r Awdurdod i brynu'r system yn 2004-2005 penderfynwyd yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 15 Mawrth 2004 y byddai £100,000 yn cael ei drosglwyddo i'r Ddarpariaeth Gyfrifiaduron.

Roedd tanwariant yn y costau prydlesu yn 2003-2004 yn bennaf oherwydd nad oedd rhai cerbydau mawr megis Tendrau Dŵr a Pheiriant Cyrraedd yn uchel wedi cael eu cwblhau mewn pryd ar gyfer y lleihad prydlesu yn 2003-2004.

Yr incwm yn y gyllideb am Log ar Arian oedd £70,000, y gwir incwm oedd £144,416. Mae'r incwm ychwanegol yn bod oherwydd y cynnydd mewn arian oherwydd y Ddarpariaeth Dyfarniad Cyflog a chynydd

mewn cyfraddau llog. Ceir manylion gweithgarwch y Rheolaeth Drysoryddol am 2003-2004 mewn adroddiad arall i'r Aelodau.

(ii) **Tanwariant 2003-2004**

Y tanwariant yn 2003-2004 yw £5,544. Yn 2004-2005 cafodd yr Awdurdod Tân £382,382 o arian pontio i ymorol am gost y Dyfarniad Cyflog, ac roedd y cyfraniadau gan yr Awdurdodau cyfansoddol felly yn llai. Mae'r amserlen ad-dalu wrthi'n cael ei drafod ac mae'n bosib y bydd raid ad-dalu'n llawn yn 2005-2006. I leihau'r effeithiau posib gymaint ag y bo modd ar gyllideb 2005-2006 ystyrir mai doeth fyddai cyfeirio'r tanwariant yn 2004-2005 i Ddarpariaeth Arian Pontio.

Yn y cyfarfodydd o'r Awdurdod Tân ar 15 Rhagfyr 2003 a 15 Mawrth 2004 cytunwyd i ariannu unrhyw orwariant yn codi yn y flwyddyn ariannol o danwariant y flwyddyn cynt. I ymorol am gostau ychwanegol y cytundeb cyflog, cyfeiriwyd £748,064 o'r tanwariant yn 2002-2003 i Ddarpariaeth Cytundeb Cyflog, bydd £216,658 yn cael ei ddefnyddio i ymorol am y tanwariant amcangyfrifedig yn 2003-2004 a'r £531,406 sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i wrthbwysu'r cynnydd yn y gyllideb yn 2004-2005. Fodd bynnag, oherwydd yr arbedion isod ni fydd raid defnyddio'r Ddarpariaeth Gyflogau i ariannu'r gorwariant ar gyflogau'r diffoddwyr tân. I gyd-fynd â'r uchod, mae £216,658 wedi cael ei drosglwyddo o Ddarpariaeth y Dyfarniad Cyflog i'r Ddarpariaeth Arian Pontio.

Yn y blynyddoedd a fu mae'r Awdurdod Tân wedi crynhoi Darpariaeth Gyfalaf i ariannu llithriant yn y rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, ni fu raid bob amser ddefnyddio'r Ddarpariaeth Gyfalaf, a'r arian yn y ddarpariaeth nawr yw £481,631. Amcangyfrifwyd bod £59,000 o'r ddarpariaeth yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyfalaf yn 2003-2004, gan adael arian yn y ddarpariaeth o £422,631. Gyda'r Côt Darbodus newydd, nid oes raid bellach ddal darpariaethau ar gyfer gwariant cyfalaf, felly mae'r arian ar y ddarpariaeth, sef £422,631 wedi cael ei drosglwyddo i Ddarpariaeth y Dyfarniad Cyflog i wrthbwysu'r pwysau ar y gyllideb yn 2004-2005. Fodd bynnag, oherwydd llithriant yn y Rhaglen Gyfalaf yn 2003-2004 ni fu raid defnyddio'r £59,000. I gyd-fynd â'r argymhellion uchod ystyrir mai doeth fydd defnyddio'r £59,000 i wrthbwysu'r pwysau ar y gyllideb yn 2005-2006 a chael ei drosglwyddo i'r Ddarpariaeth Arian Pontio.

Yn gryno, yr arian yn y Ddarpariaeth Arian Pontio ar 31 Mawrth 2004 yw £281,202. Hyn yw'r tanwariant yn 2003-2004, £216,658 o'r Ddarpariaeth Dyfarniad Cyflog a £59,000 o'r Ddarpariaeth Gyfalaf.

(iii) **Gwariant Cyfalaf 2003-2004**

Mae'r Llywodraeth yn rheoli gwariant cyfalaf yr Awdurdodau drwy gyflwyno Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol (BCA) a Chymeradwyaeth Credyd Atodol (SCA). Dyma'r cyfyngiad a osodir gan y Llywodraeth ar y swm y gellir ei fenthyl i ariannu gwariant cyfalaf mewn blwyddyn

ariannol. Roedd y gwir wariant a gafwyd yn £957,988. Dyma'r prif gynlluniau a gyflawnwyd;

£	
37,755	Gorsaf Dân Llanfairfechan
70,641	Cyfleusterau Hyfforddi Llandudno
394,911	Cyfleusterau Hyfforddi Dolgellau
69,551	Mân waith a gwaith cynnal a chadw
20,134	Cerbydau
19,374	Hydrantau Tân
345,622	Offer TG a Chysylltiadau

Ariannwyd y gwariant cyfalaf gan £936,000 Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol (BCA) a £21,988 Derbynebau Cyfalaf Defnyddiol. Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol yr Awdurdod am 2003-2004 oedd £709,000 ond oherwydd llithriad yn y rhaglen gyfalaf trosglwyddwyd yn 2002-2003 £227,000 i Gyngor Dinas Casnewydd, caiff hyn ei ddychwelyd yn 2003-2004.

(iv) **Mantolen 2003-2004**

Dosrannwyd oes Ased i'r holl adeiladau yn awr a chânt eu dibrisio dros yr oes ddisgwyliedig honno, dangosir hyn yn Nodyn 1 i'r Fantolen Gyfunol ar dudalen 18. Cynyddwyd Benthycia Tymor Hir o £0.615m. Penderfynir y cynnydd yn y benthycia trwy fformiwla, a'r ffactorau a ystyrir yw swm y BCA a SCA ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn, yr Uchafswm Credyd a'r benthyciadau dyledus. Dyled benthyciad yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2004 oedd £3.963m, sef cynydd o £0.615m dros y flwyddyn.

(v) **Llif Arian**

Caiff yr Awdurdod Tân ei gyllido o ardollau ar Awdurdodau Lleol, derbynnir yr ardollau yn fisol ac fe'u defnyddir i ariannu gwariant.

(vi) **Darpariaethau ac Ymrwymadau**

Mae gan yr Awdurdod Ddarpariaeth Bensiwn o £1,954,566 i gwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol, caiff sefyllfa Pensiynau ei monitro a'i hadrodd yn rheolaidd i'r pwyllgor fel eitem ar wahân ar yr agenda. Y darpariaethau eraill a ddelir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2004 yw'r Ddarpariaeth Dyfarniad Cyflog sef £954,037, y Ddarpariaeth Gyfrifiaduron sef £100,000 a'r Ddarpariaeth Arian Pontio sef £281,202. Mae manylion pellach y darpariaethau a ddelir wedi'u cynnwys ar dudalennau 17 a 23.

**(vii) Costau Cyllido Cyfalaf**

Y tâl a godwyd ar gyfrifon refeniw'r gwasanaeth er mwyn adlewyrchu cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd wrth ddarparu'r gwasanaeth oedd £997,310. Tâl tybiannol yw hwn, gan fod addasiad credyd yn cael ei wneud i'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau a'r Gronfa Ariannu Cyfalaf, felly ni effeithir ar y cyfraniadau sydd eu hangen ar gyfer ariannu'r gwasanaeth. Y gost wirioneddol i'r gwasanaeth am ariannu cyfalaf yw: £206,403 am log ar fenthyciad, a Darpariaeth Refeniw Isafswm o £270,194 (gweler nodiadau 1 a 5 ar y Cyfrif Refeniw Cyfunol).

**(viii) Safon Adrodd Ariannol 17 (FRS 17)**

Cafodd FRS 17 ei chyflwyno er mwyn sicrhau bod cyfriflenni'n adlewyrchu, ar sail gwerth teg, yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o ymrwymadau cyflogwr ynglŷn â budd-dâl pensiwn, ac o unrhyw ariannu perthynol. Yn Natganiad Cyfrifon 2002–2003, yr hyn a oedd yn ofynnol oedd datgelu'r rhwymedigaeth mewn nodyn ar y fantolen. Yr hyn sy'n ofynnol am 2003–2004 yw codi tâl llawn ar y cyfrif refeniw am gost gyfredol y gwasanaeth, a gwneud cofnod ar y Fantolen i adlewyrchu atebolrwydd yr Awdurdod am bensiynau. Amcangyfrifir bod atebolrwydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru am bensiynau ar 31 Mawrth 2004 yn £106.346 miliwn.

**4. GWYBODAETH YCHWANEGOL**

Mae gwybodaeth ychwanegol am y cyfrifon hyn ar gael gan Drysorydd yr Awdurdod Tân, Bodlondeb, Conwy. Hefyd, mae gan aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb, yr hawl statudol i archwilio'r cyfrifon cyn i'r archwiliad gael ei gwblhau. Rhoddir gwybod bod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio trwy'r wasg leol ac ar wefannau Awdurdod Tân Gogledd Cymru ([www.gwastan-gogcymru.org.uk](http://www.gwastan-gogcymru.org.uk)) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ([www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk)).

Mae cyfrifon 2003-2004 wedi eu harchwilio, ac y mae tystysgrif yr Archwiliwr i'w chanfod ar dudalen 31.

K W FINCH CPFA IRRV

**Trysorydd i'r Awdurdod Tân****DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU AR GYFER Y DATGANIAD CYFRIFON****CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD**

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddiad cywir ei faterion ariannol ac i sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddiad y materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Trysorydd;
- reoli ei faterion i sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a diogelu ei asedau.

### **CYFRIFOLDEBAU'R TRYSORYDD**

Mae'r Trysorydd yn gyfrifol am baratoad Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod sydd, yn nhermau Côt Ymarferiad CIPFA/LASAAC ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol ym Mhrydain ("y Côt"), yn ofynnol i gyflwyno'n gyfiawn sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2004.

Ym mharatoad y Datganiad Cyfrifon, mae'r Trysorydd wedi:

- cael polisiâu cyfrifeg addas a ddewiswyd ac yna eu cymhwyso gyda chysondeb;
- gwneud barnau ac amcangyfrifon oedd yn rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â'r Côt.

Mae'r Trysorydd hefyd wedi:

- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir a oedd yn gyfamserol;
- cymryd camau rhesymol er atal neu ddarganfod twyll neu weithredoedd afreolaidd eraill.

### **TYSTYSGRIF Y TRYSORYDD**

#### **DATGANIAD CYFRIFON 2003/2004**

Paratowyd Datganiad Cyfrifon yn unol â Rheolau Cyfrifon ac Archwiliad 1996.

ARWYDDWYD :

**K W FINCH CPFA IRRV**

*Trysorydd i'r Awdurdod Tân*

DYDDIEDIG : \_\_\_\_\_

## **DATGANIAD AR Y SYSTEM RHEOLAETH ARIANNOL FEWNOL**

1. Gwneid y datganiad hwn ynghylch y datganiad o gyfrifon ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Mae'r Awdurdod Tân yn cydnabod ei gyfrifoldeb am sicrhau bod system o reolaeth ariannol fewnol yn cael ei chynnal ac yn cael ei gweithredu mewn perthynas â'r adnoddau dan sylw.
2. Ni all y system rheolaeth ariannol fewnol ond darparu sicrhad rhesymol nid llwyr bod yr asedau'n cael eu gwarchod, bod trafodion yn cael eu cofnodi'n gywir, a bod gwallau neu anghysonderau materol naill ai'n cael eu hosgoi neu'n cael eu gweld o fewn cyfnod amserol.
3. Mae'r system rheolaeth ariannol fewnol wedi ei seilio ar fframwaith o wybodaeth reolaethol reolaidd, rheoliadau ariannol, gweithdrefnau gweinyddol (gan gynnwys didoli dyletswyddau), goruchwyliaeth reolaethol, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Rheolwyr o fewn y Gwasanaeth sy'n datblygu ac yn cynnal y system rheolaeth ariannol. Mae'r system yn cynnwys yn benodol:
  - Systemau cyllidebol cynhwysfawr;
  - Adolygiadau rheolaidd o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol sy'n dangos perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon;
  - Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol ac eraill;
  - Llunio adroddiadau ariannol rheolaidd sy'n dangos y gwir wariant yn erbyn y rhagolygon;
  - Canllawiau pendant ar wariant cyfalaf.

#### 4. Trefniadau Archwiliadau Mewnol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, dan gytundeb, sy'n darparu'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol i'r Gwasanaeth Tân. Mae'r cytundeb presennol yn caniatáu nifer o ddiwrnodiau i ddarparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol, ac unrhyw waith sydd heb ei gynllunio'n golygu cost ychwanegol i'r Awdurdod Tân.

Mae'r Archwiliadau Mewnol yn ceisio gwneud ei waith yn unol â'r safonau proffesiynol a osodir gan y Bwrdd Arferion Archwilio fel y disgrifir yn y Codau Ymarfer a roddir allan gan gyrrf proffesiynol, yn arbennig Côt Ymarfer CIPFA ar Archwiliadau Mewnol mewn Llywodraeth Leol.

Er mwyn sicrhau bod yr Archwiliadau Mewnol yn ateb ei amcanion ac yn defnyddio ei adnoddau hyd yr eithaf, rhaid cynllunio'r gwaith archwilio yn ddigonol. Mae cynllunio'n golygu adnabod llwyth gwaith yr archwiliad, gan gymryd i ystyriaeth yr holl weithgarwch sydd i'w archwilio, hyd a lled unrhyw fannau gwan sy'n hysbys a meysydd risg uchel. Cytunir ar y Cynllun Archwilio bob blwyddyn ac ar hyn o bryd mae'n seiliedig ar adolygiad cylchol o'r gweithgarwch, a'r newidiadau'n cael eu gwneud yn unol â gofynion y Gwasanaeth Tân.

Caiff yr Adroddiadau Archwiliadau Mewnol eu rhoi yn enw Rheolwr yr Archwiliadau sydd â mynediad at unrhyw un neu bob un o'r canlynol, a gall adrodd yn uniongyrchol iddynt: Cadeirydd yr Awdurdod Tân, y Prif Swyddog Tân, unrhyw swyddog gyda'r Gwasanaeth Tân. Mae'r farn sydd yn yr adroddiadau wedi eu ffurfio'n annibynnol ac nid yw'n agored i ddylanwad allanol i'r Adran Archwiliadau Mewnol.

5. Yn yr adolygiad i effeithiolrwydd y system rheolaeth ariannol fewnol mae:
  - Gwaith rheolwyr yn y Cyngor
  - Gwaith yr archwilwyr mewnol fel y disgrifir uchod; a
  - Yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwiliad blynyddol ac adroddiadau eraill.
6. Yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd yn 2003/04, barn yr Archwiliad Mewnol ar y mecanweithiau y mae'r rheolwyr wedi eu rhoi mewn lleol i gael Rheolaeth Ariannol Fewnol yw eu bod yn ddigonol at y diben.
7. Yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad allanol o Archwiliad Mewnol y Gwasanaeth Tân, mae'r gwaith o gynllunio'r Archwiliad yn 2004/05 yn seiliedig ar asesiad risg er mwyn sicrhau bod yr adnodd archwilio yn cael ei ddefnyddio fwyaf effeithiol.

(Llofnodwyd) \_\_\_\_\_  
 (Dyddiedig) \_\_\_\_\_  
 (Trysorydd)





## **DATGANIAD POLISIÄU CYFRIFYDDU**

### **1. CYFFREDINOL**

Paratowyd y cyfrifon yn unol â Chôd Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol Prydain Fawr 2003, a gyhoeddwyd yn Mehefin 2003 gan Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifon y Cyhoedd (CIPFA) a hefyd gyda nodiadau cynorthwyol a gyhoeddwyd gan CIPFA ynghylch sut i weithredu Safonau Cyfrifyddu (SSAP'au), a Safonau Adrodd Ariannol (FRS).

### **2. ASEDÄU SEFYDLOG**

Ymgwymerwyd â'r gwaith o ailwerthuso asedau sefydlog yn ystod Awst/Medi 1999, ac adlewyrchir y gwerthoedd hynny yn y Daflen Fantolen. Cyflawnwyd y gwaith o werthuso gan Gyngor Gwynedd. Rhoddwyd gwerth marchnad agored i'r swyddfeydd a chost colli gwerth cyfnewid i'r gorsafoedd tân. I gydymffurfio â'r FRS15 newydd amcangyfrifodd y Prisiwr fywydau yn weddill ar gyfer holl adeiladau'r Awdurdod Tân er mwyn cyfrifo tâl colli gwerth. Cydnabyddir yr asedau eraill ar eu cost hanesyddol ac maent yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

Yn unol â gofynion FRS 11, mae'r Awdurdod yn adolygu, ar ddiwedd pob cyfnod, y gwerth sy'n cael ei gofnodi ar gyfer pob categori o ased sy'n cael ei gynnwys yn y fantolen. Pan fydd rheswm i gredu bod y gwerth wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod, mae'r prisiad yn cael ei addasu'n briodol. Mae cost amhariaeth yn cael ei chodi ar y Cyfrif Refeniw Gwasanaeth pan fydd yn deillio o ddefnyddio buddion economaidd, ac ar y Gronfa Ailddatgan Asedau Sefydlog mewn achosion eraill.

### **3. COSTÄU'R ASEDÄU SEFYDLOG O'R REFENIW**

Codir tâl cyfalaf ar y cyfrif refeniw ar gyfer yr holl asedau sefydlog a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth. Mae cyfanswm y gost yn cynnwys darpariaeth blyneddol ar gyfer colli gwerth, a chyfradd llog damcaniaethol penodol o 3.5% ar werthoedd net yr asedau. Cafodd y gyfradd llog dybiedig ei gostwng am 2003–2004; y gyfradd a gafodd ei gweithredu am 2002–2003 oedd 6%.

Seilir cyfanswm y gost ar y cyfalaf a geir. Cymerir i ystyriaeth y bydd yr holl asedau a ddaw i ben wedi cael defnydd ohonynt, yn colli eu gwerth, ac fe'u cyfrifir ar sail llinell syth.

Tynnir y gost am log allanol taladwy a'r ddarpariaeth colli gwerth, o'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau, a ariannir drwy'r ffioedd cyfalaf a godir. Fe fydd y ffioedd cyfalaf, felly, yn cael effaith niwtral ar y symiau fydd angen eu codi drwy drethi.

### **4. COLLI GWERTH**

Ystyrir y bydd asedau, heblaw tir, yn colli eu gwerth tra'n cael defnydd ohonynt. Yn ôl yr FRS15 rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer colli gwerth ar holl adeiladau'r Awdurdod Tân. Lle y darparir ar gyfer colli gwerth, fe ddefnyddir y dull llinell syth i ystyried colled mewn gwerth i'r asedau dros y cyfnodau canlynol:-

Adeiladau	15 - 80 mlynedd
Strwythurau Mewnol	5 - 10 mlynedd
Cerbydau, Peiriannau ac Offer	4 - 15 mlynedd

## 5. **Y SYLFAEN ER MWYN DARPARU AR GYFER CASGLU DYLEDION**

Mae'r Awdurdod wedi cymeryd benthyciadau tymor hir sydd yn amrywio o ran eu hyd i ariannu asedau sefydlog sydd wedi eu prynu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer casglu dyledion yn gyfrifiad sydd wedi ei sylfaenu ar agoriad gwerth y credyd nenfwd (*credit ceiling value*), gyda'r elfen honno yn gysylltiedig â chostau pontio a dynnir o'r cyfrif refeniw dros gyfnod o saith mlynedd, a balans y credyd nenfwd yn cael ei dynnu o'r cyfrif refeniw fel swm yn hafal i 4% o'i werth.

## 6. **CRONFEYDD WRTH GEFN A'R BALANS**

Nid yw'r gyfundrefn ariannol y mae'r Awdurdod yn gweithredu oddi tani yn caniatáu iddo ddal Arian wrth gefn. Fodd bynnag, caniateir i'r Awdurdod ddal Darpariaethau. Mae darpariaethau'n ymwneud â rhwymedigaethau yr aethpwyd iddynt, mewn achosion lle nad oes modd pennu'n fanwl gywir beth oedd swm neu amseriad y taliad. Mae cost gwariant yn cael ei chodi ar y Cyfrif Refeniw Gwasanaeth yn y flwyddyn pan fydd y ddarpariaeth yn cael ei chreu; mae cost gwariant ar gyfer clirio'r rhwymedigaeth yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Mae manylion y Darpariaethau a oedd yn cael eu dal gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2004 wedi eu rhoi yn nodyn 10 ar y Fantolen Gyfunol.

## 7. **STOC A'R STORFA**

Mae'r Awdurdod yn cymeryd i ystyriaeth y stoc o wisgoedd ffurfiol, rhannau cerbydau, tanwydd ac eitemau gweithredol bychain eraill. Yn unol â'r Côt Ymarfer a'r SSAP 9, rhoddir y gwerth isaf i'r stoc sef y cost gwirioneddol, neu'r gwerth credadwy net.

## 8. **COSTAU PENSIWN**

Mae'r Awdurdod yn ymwneud â dau gynllun pensiwn gwahanol sydd yn cwrdd â gofynion grwpiau staff gwahanol. Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion a ddiffinnir mewn perthynas â thâl a gwasanaeth. Mae'r cynlluniau fel a ganlyn:-

### (i) **Dynion a Merched Tân Mewn Lifrai**

Nid yw'r cynllun hwn yn cael ei ariannu gyda'r cost a dynnir o'r cyfrif referniw yn cynrychioli cost net y pensiynau a'r buddion eraill ar ôl ystyried cyfraniadau'r staff ar gyfer y flwyddyn.

(ii) **Gwasanaethau Llywodraeth Leol a Staff yr Ystafell Reoli**

Mae'r staff hyn yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir o gyfrif yr Awdurdod mewn perthynas â'r staff, yn hafal i'r cyfraniadau a delir i'r cynllun pensiwn a ariannir ar gyfer y staff hyn. Codir costau ychwanegol mewn perthynas â rhai pensiynau arbennig a delir i staff sydd wedi ymddeol heb fod wedi eu hariannu.

Mae'r costau pensiwn hyn wedi eu penderfynu ar sail y cyfraddau cyfrannu cam ar y tro i gwrdd â 100% o atebolrwydd y Gronfa yn unol â rheolau perthnasol y Llywodraeth.

(iii) **FRS 17**

Mae FRS 17 yn rhagnodi datgelu'r ymrwymïadau tymor hir yr aethpwyd iddynt o ran costau pensiwn. 2003-2004 yw'r flwyddyn gyntaf lle mae'r cyfrifon yn cael eu haddasu i gymryd ystyriaeth o'r polisiâu cyfrifydda sydd yn FRS 17. Mae cyfrifon 2002-2003 wedi cael eu newid trwy addasu blwyddyn gynt i ddarparu ffigurau cymharol.

Mae cyfrifon yr Awdurdod Tân wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â'r SORP ac mae hynny'n darparu nad yw'r addasiadau a wneud i weithredu'r FRS 17 yn effeithio o gwbl ar Gyfraniadau'r Awdurdodau Lleol.

9. **DOSBARTHIAD COSTAU GWEINYDDOL CANOLOG**

Darparir y gwasanaethau gweinyddol canolog mwyaf megis Cyllid a Chefnogaeth Gyfreithiol a Gweinyddol gan yr Awdurdodau Lleol eraill. Mae'r costau hyn a chostau gweinyddiaeth ganolog yr Awdurdod Tân wedi eu dyrannu i wasanaethau'r rheng flaen yn unol â Datganiad CIPFA ar Gyfrifyddu Costau Uwchben a'r Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau.

10. **DYLEDWYR A CHREDYDWYR**

Cynhelir Cyfrif Refeniw'r Awdurdod ar sail gronïadol yn unol â'r Côt a'r SSAP 2; mae hyn yn golygu fod symiau sydd yn ddyledus i ac oddi wrth yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif referniw, p'run a yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu neu beidio yn ystod y flwyddyn. Mae cronïadau gwariant cyfalaf sylweddol yn cael eu gwneud hefyd ar ddiwedd y flwyddyn; fodd bynnag, mae gwariant yn cael ei ariannu ar sail yr arian gwirioneddol a gafodd ei wario yn ystod y flwyddyn.

11. **BUDDSODDIADAU**

Hyd at 15 Ionawr 2004 roedd unrhyw arian dros ben neu falans gorddrafft sy'n bod o ddydd i ddydd yn cael ei gynnwys fel rhan o weithgarwch rheolaeth

Drysoryddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Ystyriwyd bod cydgyfnerthu arian yr Awdurdod, gydag arian Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn cael y llog mwyaf posib y gall y Gwasanaeth Tân ei gael. Roedd y llog yn cael ei dalu neu'n cael ei godi ar y balans arian dyddiol ar y gyfradd dros nos roedd banc yr Awdurdod yn cael ei gael, a 0.25%. Oherwydd y cynnydd yn y Darpariaethau sydd gan yr Awdurdod Tân ystyrid mai doeth fyddai buddsoddi'r arian dros ben yn uniongyrchol ar ran yr Awdurdod, a dechreuodd y buddsoddiadau uniongyrchol ar 15 Ionawr 2004. Caiff y deliadau llog eu dangos ar wahân o fewn y Cyfrif Refeniw Crynodeb. Caiff y buddsoddiadau eu dangos yn y Fantolen Gydgyfnerthedig ar gost. Ceir gwybodaeth bellach yn Nodyn 12 ar y Fantolen.

## 12. **PRYDLESI**

Mae'r Awdurdod yn dal gwahanol asedau cyfalaf — cerbydau a rhai eitemau offer yn bennaf — dan brydlesoedd gweithredu. Mae'r rheoliadau cyfrifyddu cyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol nad yw asedau sy'n destun prydlesi gweithredu'n cael eu rhestru ar y fantolen, gan nad yr Awdurdod sy'n berchen arnynt.

Mae asedau a geir trwy brydles gyllid yn cael eu dangos ar y fantolen fel Asedau Sefydlog.

Mae cost taliadau prydles blynyddol yn cael ei chodi ar y cyfrifon refeniw gwasanaeth. Mae manylion y prydlesi wedi eu hamlinellu yn nodyn 2 ar y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

## 13. **DERBYNIADAU CYFALAF**

Caiff yr enillion o asedau defnyddiadwy eu dal fel Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy a chânt eu cadw yn y cyfrif Derbyniadau Cyfalaf Anghymwysedig hyd oni chânt eu defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf.

## 14. **TRETH AR WERTH**

Nid yw TAW ond yn cael ei chynnwys mewn cyfrifon incwm a gwariant, boed o natur cyfalaf neu o natur refeniw, i'r graddau nad oes modd ei hadfer.

**CYFRIF REFENIW CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN**  
**YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2004**

<b>DADANSODDIAD GODDRYCHOL</b>	<b>NODIADAU</b>	<b>2003/04</b>	<b>2002/03</b>
		<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Diogelwch Tân Cymunedol – Arolygu ac Ardystio		1,003	943
Diogelwch Tân Cymunedol – Atal ac Addysg		1,888	1,766
Diffodd Tân – Ymatebion Gweithredol		18,543	17,370
Diffodd Tân – Cysylltiadau a Chrynhoi		1,998	1,828
Diffodd Tân – Sicrhau Cyflenwadau Dwr		799	784
Costau Corfforedig a Chraidd Democrataidd		128	119
Cost heb ei ddsbarthu		9	14
<b>GWARIANT GROS</b>		<b>24,368</b>	<b>22,824</b>
Incwm – Diogelwch Tân Cymunedol		-30	-27
Incwm – Diffodd Tân		-219	-191
<b>CYFANSWM INCWM</b>		<b>-249</b>	<b>-218</b>
Trosglwyddiad i'r ddarpariaeth ar gyfer offer y Dyfarniad Cyflog	<b>Nodyn 8</b>	206	748
Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Arian Pontio	<b>Nodyn 8</b>	282	0
Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Ymrwymadau Pensiwn	<b>Nodyn 8</b>	160	200
Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Gyfalaf	<b>Nodyn 8</b>	0	108
Trosglwyddiad o'r Ddarpariaeth Gyfalaf	<b>Nodyn 8</b>	-482	0
Trosglwyddiad i'r Ddarpariaeth Gyfrifiaduron	<b>Nodyn 8</b>	100	0
Trosglwyddiad o'r Ddarpariaeth ar gyfer Cyfnewid Offer Amddiffynnol	<b>Nodyn 8</b>	0	-53
Cyfraniad i'r Ddarpariaeth Ddyledion	<b>Nodyn 8</b>	-5	9
<b>COST NET Y GWASANAETH</b>		<b>24,380</b>	<b>23,618</b>
Llog a dderbyniwyd		-144	-81
Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau	<b>Nodyn 1</b>	-354	-770
Cost Llog Pensiwnau	<b>Nodyn 4</b>	6,427	5,995
Elw Disgwyliedig ar Asedau Pensiwn	<b>Nodyn 4</b>	-216	-273
<b>GWARIANT GWEITHREDU NET</b>		<b>30,093</b>	<b>28,489</b>
Cyfraniad o'r Gronfa Ariannu Cyfalaf	<b>Nodyn 5</b>	-167	-210
Symudiad ar Gronfa Bensiwnau dros ben	<b>Nodyn 4</b>	-4,622	-4,324
<b>SWM SYDD I'W GODI O'R TRETHI</b>		<b>25,304</b>	<b>23,955</b>
<b>INCWM O'R TRETHI</b>	<b>Nodyn 6</b>	<b>-25,304</b>	<b>-23,955</b>
<b>YCHWANEGOL AR GYFER Y FLWYDDYN</b>		<b>0</b>	<b>0</b>

## NODIADAU'R CYFRIF REFENIW CYFUNOL

### 1. CYFRIF REFENIW RHEOLI ASEDAU

Mae'r Cyfrif Refeniw Rheoli Asedau yn cofnodi'r taliadau a godir am ddefnyddio'r asedau ac union gostau'r llog allanol i'r Awdurdod. Dangosir yr hyn sydd yn ychwanegol fel canlyniad yn y Cyfrif Refeniw Cyfunol.

	<b>2003/04</b> <b>£'000</b>	<b>2002/03</b> <b>£'000</b>
<b><u>INCWM</u></b>		
Taliadau Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw	-997	-1,417
<b><u>GWARIANT</u></b>		
Darpariaeth Colli Gwerth	437	481
Taliadau Llog Allanol	206	166
<b>YCHWANEGOL I'R CYFRIF REFENIW CYFUNOL</b>	<b>-354</b>	<b>-770</b>

### 2. PRYDLESU

Yr oedd y taliadau prydlesu yn weddill ar 31 Mawrth 2004 yn £3,892,719 (31 Mawrth 2003, £4,775,453), gyda thaliadau prydlesu o £1,165,441 (2002/03, £1,201,412) yn ystod y flwyddyn. Gwnaed taliadau prydlesu o £3,986 yn ystod y flwyddyn., pris prynu gwreiddiol y cerbydau oedd £359,048. Mae'r brydles arian wedi cyrraedd y cyfnod rhentu eilaidd, a bydd yn para am oes ddefnyddiol y cerbydau; amcangyfrifir y bydd y cerbydau mewn gwasanaeth hyd 2005.

<b>YMRWYMIADAU</b> <b>PRYDLESU</b>	<b>£'000</b>
2004/2005	1,040
2005/2006	800
2006/2007	641
2007/2008	438
2008/2009	323
2009/2010	203
2010/2011	171
2011/2012	171
2012/2013	51
2013/2014	51
2014/2015	3
2015/2016	1
<b>CYFANSWM</b>	<b>3,893</b>

### 3. GWARIANT AR GYHOEDDUSRWYDD

Dan Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol 1986, mae'n angenrheidiol i'r Awdurdod ddatgelu'r gwariant ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu a gyfeirir at y cyhoedd

